**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

**Elin Jones AC**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

15 Ebrill 2020

Annwyl Lywydd,

Cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Busnes, roeddwn i eisiau eich hysbysu o awydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i gwrdd cyn gynted â phosibl ar ôl toriad byr y Pasg.

Fel Pwyllgor, rydym yn deall ac yn cefnogi'r stop ar waith pwyllgorau er mwyn galluogi'r holl adnoddau sydd ar gael i ganolbwyntio ar baratoi gwasanaethau rheng flaen ar gyfer cyfnod brig yr argyfwng iechyd cyhoeddus presennol. Rydym hefyd yn cymeradwyo'r gwaith a wnaed i alluogi'r Senedd Frys i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif a chynrychioli pobl Cymru trwy gydol y cyfnod hyd yma.

O ystyried effaith y feirws a'r mesurau iechyd cyhoeddus cyfredol ar blant, pobl ifanc ac addysg, credwn fod gan rôl ein pwyllgor o ran craffu ran bwysig i'w chwarae wrth wynebu'r wythnosau a'r misoedd heriol sydd o'n blaenau. Rydym yn cydnabod bod Gweinidogion Cymru, swyddogion y Llywodraeth a staff rheng flaen dan bwysau sylweddol ar yr adeg hon, ac rydym yn bwriadu, fel a wnawn bob amser, mabwysiadu agwedd gyfrifol a chymesur wrth gynnal ein rhaglen waith.

Ar hyn o bryd, rydym wedi rhoi stop ar bob darn o waith nad yw’n ymwneud â Covid-19, ac rydym yn bwriadu monitro effaith Covid-19, a’r ymateb i’r feirws, ar feysydd megis:

- iechyd corfforol a meddyliol ein plant a'n pobl ifanc;
- gofal cymdeithasol a gwasanaethau plant (gan gynnwys amddiffyn plant);
- addysg cyn-16 (gan gynnwys addysg a gofal plentyndod cynnar);
- addysg ôl-16 (gan gynnwys addysg bellach ac addysg uwch); a
- phob maes perthnasol arall.

Byddwn hefyd â diddordeb brwd yn y defnydd a wneir o unrhyw bwerau brys a roddir i Weinidogion Cymru sydd o fewn ein cylch gwaith. Wrth i amser fynd yn ei flaen, byddwn yn

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

adolygu ein gwaith sydd ar stop, ac rydym yn disgwyl am fanylion pellach am amserlen blaenoriaethau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Mae hwn yn gyfnod ansicr a phryderus i bob un ohonom, yn anad neb ein plant a'n pobl ifanc. Fel Pwyllgor, rydym yn awyddus iawn i sicrhau bod pobl Cymru yn teimlo'n fodlon bod swyddogaethau craffu ein deddfwrfa yn gweithredu ar yr adegau pwysicaf, a bod materion sy'n effeithio ar ein plant a'n pobl ifanc yn flaenoriaeth i ni.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**